

Cyfenw Surname
Enwau Eraill Other Names

Rhif y Ganolfan Centre Number

Rhif yr Ymgeisydd Candidate Number
0



**TGAU – NEWYDD**

3020U30-1



S19-3020U30-1

**CYMRAEG AIL IAITH – Uned 3**  
**WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 3**  
**ADRODDIADOL, PENODOL A CHYFARWYDDIADOL**

DYDD MERCHER, 8 MAI 2019 – BORE  
 WEDNESDAY, 8 MAY 2019 – MORNING

1 awr 30 munud  
 1 hour 30 minutes

**CYFARWYDDIADAU**  
**INSTRUCTIONS**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Use black ink or black ball-point pen. Do not use pencil or gel pen. Do not use correction fluid.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.  
 Answer **all** questions in the spaces provided.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen barhad yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen barhad.

If you run out of space, use the continuation page at the back of the booklet. Question numbers must be given for all work written on the continuation page.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill.**  
**The use of dictionaries or any other resources is forbidden.**

**GWYBODAETH**  
**INFORMATION**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.

Mae'r marciau ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau yn cael eu nodi fel a ganlyn: (✓ = 2) ac ati.

Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.

Adran	Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
<b>A</b>	1.	4	
	2.	3	
	3.	10	
	4.	12	
	5.	11	
<b>B</b>	6.	12	
	7.	10	
	8.	18	
<b>C</b>	9.	20	
<b>Cyfanswm</b>			

3020U301  
01



MAY193020U30101

**Adran A**

- A1.** Edrychwch ar y poster am Gyrfa Cymru. Rhwng gyloch o gwmpas y wybodaeth berthnasol ar gyfer eich cwmni.  
*Look at the poster about Careers Wales. Circle the relevant information for your company. [4]*


**GYRFA CYMRU**

<b>1. Helpu pwy?</b>			
<b>2. Sawl swyddfa?</b>	13	31	131
<b>3. Amser agor yn y bore?</b>	9:00	9:15	9:30
<b>4. Sut i gysylltu?</b>			



**A2.** Mae hysbysebion gwaith rhan-amser wedi cyrraedd y papur. Rhaid i chi ddewis y 3 llun mwyaf addas ar gyfer y 3 hysbyseb.  
*Part-time job adverts have arrived at the paper. You must choose the 3 most suitable pictures for the 3 adverts.* **[3]**

**YN EISIAU**



**Person ifanc i weithio  
mewn tŷ bwyta  
poblogaidd  
yn y dref.  
Bob dydd Sadwrn.**

**Ffoniwch  
07882938400**

**YN EISIAU**



**Merch / Bachgen  
15-17 oed  
i weithio mewn  
siop ddillad.  
Bore Sadwrn.**

**Ffoniwch Gari ar  
07283744888**

**YN EISIAU**



**Pobl ifanc i  
helpu gyda  
Ras y Maer  
o gwmpas yr ardal.  
Ras deg milltir.**

**www.rasymaer.org**

Ticiwch (✓) y 3 llun.



**A3.** Mae Sam wedi ysgrifennu CV ar gyfer swydd ran-amser. Fodd bynnag, mae 10 gwall yn y rhan yma o'i waith. Rhaid i chi gywiro'r gwaith cyn iddo argraffu'r CV. Mae 10 gwall wedi cael eu tanlinellu. Nodwch y cywiriadau yn y grid ar waelod y dudalen. Mae'r camgymeriadau yn cynnwys:

- gwallau sillafu
- gwallau atalnodi
- gwallau gramadeg

**[10]**

*Sam has written a CV for a part-time job. However, there are 10 mistakes in this part of his work. You must correct the mistakes before he prints the CV. 10 mistakes have been underlined. Note the corrections in the grid at the bottom of the page. The mistakes include:*

- *spelling mistakes*
- *punctuation mistakes*
- *grammar mistakes*

ENW	Samuel Huw Griffiths
CYFEIRIAD	10, <u>heol</u> yr Orsaf, Llandegfryn
OED	Un deg <u>saeth</u>
PEN-BLWYDD	<u>Rhagfr</u> 15
YSGOL	Ysgol y Bryn
PYNCIAU LEFEL A	Rydw i'n astudio <u>hannes</u> , chwaraeon a busnes
SGILIAU	Rydw i'n gallu siarad Cymraeg, Saesneg a <u>Ffraneg</u>
PROFIAD O WEITHIO	<u>Gweithiodd</u> i mewn siop chwaraeon yn yr haf. Roedd yn hwyl.
DIDDORDEBAU	Fy hobiau <u>yn</u> nofio, mynd <u>ir</u> sinema a chwarae <u>pel-fasged</u> gyda ffrindiau
ENW A GWAITH CANOLWR	Mr Mark Jenkins, <u>athrawes</u> ymarfer corff

1.	2.	3.	4.	5.
6.	7.	8.	9.	10.



**A4.** Mae 3 ffrind wedi mynegi barn ar waith rhan-amser. Darllenwch eu sylwadau yn ofalus.  
*3 friends have expressed their opinions on part-time work. Read their comments carefully.* [12]

Yn fy marn i mae gwaith rhan-amser yn syniad da achos gallwch chi wneud ffrindiau newydd. Hefyd gallwch chi ddysgu mwy am y gweithle ac rydych chi'n ennill arian wrth gwrs!

(Beca, 15 oed)

Does dim gwaith rhan-amser gyda fi. Pam? Wel, rydw i'n chwarae criced neu rygbi bob dydd Sadwrn. Felly does dim amser gyda fi i weithio. A dweud y gwir, rydw i'n un deg chwech oed. Dydy pobl un deg chwech oed ddim i fod i weithio. Rydyn ni yma i fwynhau bywyd a chael hwyl.

(Gareth, 16 oed)

Mae gen i waith rhan-amser mewn siop sglodion yn y dref. Mae'n iawn ond mae'n gallu bod yn ddiflas. Hefyd mae'n flinedig weithiau, yn enwedig ar nos Sadwrn. Fodd bynnag, mae gwaith rhan-amser yn helpu dysgu sgiliau fel gweithio mewn tîm, datrys problemau a sut i siarad gyda'r cwsmeriaid. Bydd gwaith rhan-amser yn helpu yn y dyfodol – yn bendant.

(Rory, 16 oed)

- (i) Nodwch 2 bwynt da am waith rhan-amser yn ôl y ffrindiau.  
*Note 2 good points about part-time work according to the friends.*

[4]

Pwynt 1	
Pwynt 2	

- (ii) Nodwch 2 problem am waith rhan-amser yn ôl y ffrindiau.  
*Note 2 problems about part-time work according to the friends.*

[4]

Problem 1	
Problem 2	



(iii) Gyda phwy rydych chi'n cytuno – Beca, Gareth neu Rory? Rhowch 2 reswm dros eich ateb.

*Who do you agree with – Beca, Gareth or Rory? Give 2 reasons for your answer. [✓ = 4]*

.....


.....

.....

.....



- A5.** Mae pobl ifanc yn meddwl bod amser hamdden yn bwysig hefyd. Mae'r graff isod yn dangos beth mae 100 o bobl ifanc yn gwneud yn eu hamser hamdden. Edrychwch yn ofalus ar y graff. *Young people think that leisure time is also important. The graph below shows what 100 young people do in their leisure time. Look carefully at the graph.* [11]



- (i) Mae 2 wall yn y teitl. Ail-ysgrifennwch y teitl yn gywir **yn Gymraeg**.  
*There are 2 mistakes in the title. Write the title again correctly in Welsh.* [2]

- (ii) Mae'r papur bro wedi gofyn am ganlyniadau'r graff. Rhaid i chi lenwi'r canlyniadau ar gyfer rhifyn nesaf y papur.  
*The local paper has asked for the results of the graph. You must fill in the results for the next edition of the paper.* [4]

- Mae mwyafrif y bechgyn yn hoffi .....
- Dim ond chwarter y bechgyn sy'n hoffi .....
- Mae hanner y merched yn mwynhau .....
- Dydy ..... ddim yn boblogaidd gyda'r bechgyn na'r merched.



- (iii) Mae'r papur wedi gofyn am eich barn bersonol chi hefyd.  
*The paper has also asked for your personal opinion.*

Ydych chi'n cytuno gyda chanlyniadau'r graff?  
*Do you agree with the results of the graph?*

[1]

Pam? Rhowch 2 reswm **yn Gymraeg**.  
*Why? Give 2 reasons in Welsh.*

Rheswm 1: .....

[✓ = 2]

Rheswm 2: .....

[✓ = 2]



**TUDALEN WAG**  
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU**  
**AR Y DUDALEN HON**  
***DO NOT WRITE***  
***ON THIS PAGE***



**Adran B**

**B6.** Mae siarter iaith “Cymraeg Campus” yn boblogaidd iawn mewn ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn hyn. Darllenwch y darn isod er mwyn dysgu mwy am y project.

*The Cymraeg Campus language charter is very popular in primary schools in Wales by now. Read the passage below to learn more about the project.* [12]



Beth ydy Cymraeg Campus? Wel, nod y project yw bod plant yr ysgol gynradd yn defnyddio mwy o Gymraeg yn yr ysgol bob dydd. Y syniad ydy bod pennaeth ysgol, athrawon, llywodraethwyr a rhieni yn deall pwysigrwydd y Gymraeg. Hefyd bydd Criw Cymraeg ym mhob ysgol, sef grŵp o blant fydd yn helpu datblygu'r project yn yr ysgol.

Yn gyntaf, maen nhw'n chwilio am y 10 cam yma. Maen nhw eisiau bod pawb yn gallu dweud:

- Rydyn ni'n gweld arwyddion a phosteri Cymraeg o gwmpas yr ysgol.
- Rydyn ni'n meddwl bod Cymraeg yn bwysig.
- Rydyn ni'n siarad Cymraeg yn y dosbarth.
- Rydyn ni'n siarad Cymraeg ar yr iard.
- Rydyn ni'n clywed Cymraeg yn y gwasanaeth yn y bore.
- Rydyn ni'n defnyddio apiau a gwefannau Cymraeg.
- Rydyn ni'n mwynhau gweithgareddau Cymraeg fel y Clwb Cymraeg, Eisteddfod yr Ysgol, tripiâu...
- Rydyn ni'n darllen llyfrau Cymraeg.
- Rydyn ni'n defnyddio Cymraeg mewn gwersi eraill e.e. Daearyddiaeth.
- Rydyn ni'n mwynhau dysgu Cymraeg.

Mae 3 lefel ar gael. Felly pob lwc ysgolion cynradd Cymru.



AUR



ARIAN



EFYDD



- (i) Mae Cymraeg Campus eisiau bod pob ysgol gynradd yn gallu cytuno gyda'r 10 cam. Dydy'r 10 cam yma ddim mewn trefn arbennig. Yn eich barn chi, pa 3 cham ddylai fod y pwysicaf?

Nodwch y camau **yn Gymraeg** isod a rhowch reswm dros eich dewis.

*Cymraeg Campus wants each primary school to agree on the 10 steps. These 10 steps are not in any particular order. In your opinion, which 3 steps are the most important?*

*Note the steps in Welsh below and give a reason for your decision.* [9]

	Y CAM	EICH RHESWM CHI
1		
2		
3		

- (ii) Pa un o'r camau yma sy'n bwysig mewn ysgolion uwchradd yn eich barn chi? Rhowch reswm dros eich dewis.

*Which of these steps is important in secondary schools in your opinion? Give a reason for your choice.* [✓ = 3]

.....

.....

.....

.....

.....



**B7.** Mae'r cyngor lleol eisiau annog mwy o oedolion i ymuno â dosbarth Cymraeg. Rhaid i chi gyfieithu'r poster i'r **Gymraeg**.  
*The local council wants to encourage more adults to join a Welsh class. You must translate the poster **into Welsh**.* [10]



**TUDALEN WAG**  
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU**  
**AR Y DUDALEN HON**  
***DO NOT WRITE***  
***ON THIS PAGE***



**B8.** Mae gwobrau arbennig bob blwyddyn i bobl sydd wedi dysgu Cymraeg. Darllenwch am enillwyr 2017.

*There are special awards every year for people who have learnt Welsh. Read about 2017's winners.*

[18]

<b>DANIELLA SCHLICK</b>	<b>REBECCA JONES</b>
	
<b>Dysgwr y Flwyddyn 2017</b>	<b>Medal y Dysgwyr 2017</b>
<p>Mae Daniella Schlick yn caru Cymru a hanes Cymru. Cafodd hi ei geni yn yr Almaen, ond erbyn hyn mae hi'n byw yng Ngogledd Cymru. Yn ei barn hi mae Cymraeg yn bwysig achos dyma iaith Cymru.</p> <p>Ym marn Daniella, bydd siarad Cymraeg yn helpu i wneud ffrindiau ac yn y byd gwaith.</p> <p>Mae Daniella yn ddiolchgar iawn i lawer o bobl, yn enwedig Elwyn Hughes, ei thiwtor. Fe sydd wedi bod yn barod i'w helpu bob amser.</p> <p>Pobl ifanc sy'n bwysig i Daniella – hoffai hi weld y bobl ifanc yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Yn ei barn hi mae pawb yn canolbwyntio ar y plant bach a'r oedolion ond y bobl ifanc sy'n bwysig. Mae eisiau mwy o raglenni teledu i'r ifanc, rhaglenni ar y radio, ffilmiau a dramau. Hefyd mae eisiau annog teuluoedd i siarad Cymraeg yn y cartref.</p>	<p>Cafodd Rebecca ei geni yn Aberdâr yn 1995. Doedd ei theulu ddim yn siarad Cymraeg ond roedd Rebecca yn awyddus iawn i ddysgu'r iaith pan yn ifanc. A dweud y gwir roedd ei mam-gu yn siarad Cymraeg ond doedd hi ddim yn siarad Cymraeg gyda'r teulu.</p> <p>Aeth Rebecca i Goleg y Brifysgol Abertawe i astudio'r Gymraeg, lle roedd un o'r tiwtoriaid, sef Christine James, yn ysbrydoliaeth iddi. Roedd hi'n help mawr iddi bob amser.</p> <p>Siarad Cymraeg oedd yn bwysig i Rebecca. Roedd hi eisiau deall pobl yn siarad Cymraeg mewn digwyddiadau pwysig fel Sioe Llanelwedd.</p> <p>Yn ôl Rebecca mae dysgu Cymraeg yn bwysig achos mae'n agor drysau, yn enwedig ym myd gwaith.</p>



- (i) Nodwch y wybodaeth bwysig am y ddwy enillydd yn y grid.  
*Note the important information about the two winners in the grid.*

[6]

	Daniella Schlick	Rebecca Jones
Gwobr 2017		
Geni – ble?		
Help i ddysgu Cymraeg. Gan bwy?		

- (ii) Nodwch un peth sy'n debyg rhwng Daniella a Rebecca.  
*Note one similarity between Daniella and Rebecca.*

[2]

.....

.....

.....

- (iii) Ydy'r pwyntiau yma yn gywir neu'n anghywir?  
*Are these points correct or incorrect?*

[4]

	CYWIR	ANGHYWIR
Mae Daniella yn ddwyieithog.		
Does neb yn nheulu Rebecca yn siarad Cymraeg.		
Mae Daniella yn poeni am blant bach yn dysgu Cymraeg.		
Yn ôl y ddwy ferch, mae siarad Cymraeg yn gallu helpu yn y gweithle.		





**Adran C****C9.(a) Naill ai:**

Ysgrifennwch **yn Gymraeg** ar un o'r canlynol.

**[20]**

Write **in Welsh** on one of the following.

Roedd gwaith rhan-amser gyda chi yn ystod Gwyliau'r Pasg. Roeddech chi'n helpu gyda'r clwb plant lleol. Mae'r Pennaeth wedi gofyn i chi ysgrifennu **yn Gymraeg** am eich profiad yn y cylchgrawn ysgol. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- manylion y clwb plant
- y gweithgareddau gwahanol
- manteision y profiad
- diwedd priodol

*Either:*

*You had part-time work during the Easter Holidays. You were helping with the local children's club. The Headteacher has asked you to write **in Welsh** about your experience in the school magazine. (About 150 words)*

*You must include:*

- *your name and your reason for writing*
- *the details of the children's club*
- *the different activities*
- *the advantages of the experience*
- *an appropriate ending*

**(b) Neu:**

Rydych chi'n gweithio fel tiwtor Cymraeg yn yr ardal. Rydych chi wedi penderfynu dechrau ysgrifennu Blog **yn Gymraeg** ar gyfer pobl sy'n dysgu'r iaith. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- manteision dysgu Cymraeg
- cwestiynau am unrhyw broblemau wrth ddysgu Cymraeg
- cyfleoedd dysgu Cymraeg yn yr ardal
- diwedd priodol

*Or:*

*You work as a Welsh tutor in the area. You have decided to start writing a Blog **in Welsh** for people who are learning the language. (About 150 words)*

*You must include:*

- *your name and your reason for writing*
- *the advantages of learning Welsh*
- *questions about any problems when learning Welsh*
- *the opportunities to learn Welsh in the area*
- *an appropriate ending*



Arholwr  
yn unig  
*Examiner*  
only

A large rectangular area containing horizontal dotted lines for writing.



Arholwr  
yn unig  
*Examiner*  
only

Area with horizontal dotted lines for writing.

**DIWEDD Y PAPUR**  
**END OF PAPER**







**TUDALEN WAG**  
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU**  
**AR Y DUDALEN HON**  
***DO NOT WRITE***  
***ON THIS PAGE***



**TUDALEN WAG**  
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU**  
**AR Y DUDALEN HON**  
***DO NOT WRITE***  
***ON THIS PAGE***



**TUDALEN WAG**  
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU**  
**AR Y DUDALEN HON**  
***DO NOT WRITE***  
***ON THIS PAGE***

